

No.

## PWYLLGOR TRWYDDEDU DIOGELWCH CYHOEDDUS

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf, 2022.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd P. Drake (Cadeirydd); Cynghorydd J.M. Norman (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr G. Bruce, L. Burnett, V.P. Driscoll, R. Fisher, C.P. Franks, E. Goodjohn, W.A. Hennessy, N.B. Marshallsea, M.J.G. Morgan, S.T. Wiliam a M.R. Wilkinson.

### 143 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwrdd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

### 144 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd H.C. Hamilton.

### 145 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Chwefror, 2022 fel cofnod cywir.

### 146 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

### 147 DEDDF TIROEDD COMIN 2006 - CAIS I GOFRESTRU TIR YN FAES TREF NEU BENTREF – TIR YN THE BUTTS, Y BONT-FAEN (A ELWIR YN GAE CRICED YSGOL RAMADEG Y BONT-FAEN GYNT). (RGGC) –

Cyflwynodd yr Uwch Gyfreithiwr yr adroddiad a oedd yn gofyn am ystyriaeth a phenderfyniad Aelodau i gofrestru'r tir a elwir hen Gae Criced Ysgol Ramadeg y Bont-faen, The Butts, Y Bont-faen fel lawnt tref neu bentref.

Cyngor Bro Morgannwg yw Awdurdod Cofrestru tiroedd comin ar gyfer ei ardal weinyddol at ddiben arfer swyddogaethau o dan Ddeddf Tiroedd Comin 2006

No.

("Deddf 2006"). Cyfrifoldeb y Cyngor oedd y swyddogaeth ac fe'i dirprwywyd i'r Pwyllgor o dan gyfansoddiad y Cyngor.

Ym mis Rhagfyr 2014, derbyniwyd cais gan yr Awdurdod Cofrestru oddi wrth Gyfeillion Cae Criced yr Ysgol Ramadeg ('yr Ymgeisydd') i gofrestru rhan o dir a adnabyddir fel hen Gae Criced Ysgol Ramadeg y Bont-faen, Y Butts, Y Bont-faen ("y Tir") yn lawnt tref neu bentref ("y Cais").

Ymddiriedolaeth Ysgol Gyfun y Bontfaen oedd perchennog y tir ac yn rhinwedd y swydd honno cyflwynodd yr Ymddiriedolaeth wrthwynebiad i'r Cais.

Cafodd ymchwiliad cyhoeddus anstatudol ei gynnull i Arolygydd annibynnol ystyried y Cais a rhoi argymhelliad i'r Pwyllgor ynglŷn â sut y dylid penderfynu ar y Cais.

Roedd yr Arolygydd wedi argymell gwrthod y Cais am y rhesymau a nodir yn ei Adroddiad ("Adroddiad yr Arolygydd") a atodwyd i adroddiad y Pwyllgor.

Gofynnodd y Cadeirydd am unrhyw gwestiynau, sylwadau neu faterion o eglurhad gan y Pwyllgor.

Dywedodd y Cynghorydd Wiliam ei bod yn anffodus bod grŵp o drigolion wedi gwneud y cais i warchod y tir dan sylw rhag datblygu, bod perchennog y tir wedi gwrthwynebu, a bod y cais wedi methu â bodloni'r prawf trothwy.

Synnwyd y Cynghorydd Fisher gan fod y sylwadau yn Adroddiad yr Arolygydd am y tir nad oedd wedi cael defnydd sylweddol dros y blynyddoedd gan ei fod yn aml wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer criced a rygbi dros nifer o flynyddoedd.

Dywedodd y Cynghorydd Morgan ei fod yn anffodus nad oedd y cais wedi bodloni'r prawf trothwy ac mai'r cyngor ddaeth i law oedd gwrthod y cais yn unol â hynny. Roedd yr Arolygydd annibynnol wedi dod i'r casgliad nad oedd y cais wedi cyrraedd y trothwy perthnasol yn dilyn gwrandawriad teg o'r mater.

Dywedodd y Cynghorydd Norman bod y cyhoedd wedi defnyddio'r ardal ers blynyddoedd lawer, ond nad oed hyn yn dir cyhoeddus a bod y sefydliad sy'n berchen arno wedi gwrthwynebu'r cais. Doedd y perchennog erioed wedi codi problem gyda'i ddefnydd yn y gorffennol. Roedd cyfleuster chwaraeon hefyd wrth ymyl yr ardal dan sylw felly roedd digon o fannau agored i'w ddefnyddio yn yr ardal. Roedd yr Arolygydd annibynnol wedi asesu'r cais gan argymell nad oedd wedi pasio'r prawf trothwy. Awgrymodd, pe bai'r cais am atal unrhyw adeiladu ar y tir hwnnw yn y dyfodol, efallai y gellid edrych ar ychwanegu cyfamod.

Dywedodd y Cynghorydd Burnett nad oedd y tir mewn perchnogaeth gyhoeddus, ond eu bod wedi cael ei ddefnyddio gan bobl leol fel cyfleuster cymunedol heb her gan y perchennog. Roedd y Cyngor wedi gwarchod rhai mannau chwarae trwy eu dynodi fel Meysydd Chwarae Cymru. Roedd yr Ymddiriedolaeth a fu'n berchen ar y tir yn ymddiriedolaeth er budd pobl Y Bont-faen. Gobeithiai y byddai pobl leol a'r Ymddiriedolaeth yn parhau i fwynhau'r tir gyda'i gilydd a dod i gytundeb rhesymol at ei ddefnyddio.

No.

Dyweddod y Cadeirydd ei fod wedi bod yn anffodus fod y cais wedi cymryd amser hir o ganlyniad i'r pandemig.

Symudodd y Cadeirydd yr Argymhelliad. Yna galwodd y Pwyllgor am bleidlais wedi'i chofnodi ar y mater.

Cynhaliwyd y Bleidlais wedi'i chofnodi isod ar y mater:-

<b>Aelodau</b>	<b>O blaid</b>	<b>Yn erbyn</b>	<b>Ymatal</b>
Gillian Bruce			✓
Lis Burnett	✓		
Pamela Drake	✓		
Vincent Driscoll		✓	
Robert Fisher		✓	
Christopher Franks		✓	
Ewan Goodjohn	✓		
Howard Hamilton			
William Hennessy		✓	
Naomi Marshallsea	✓		
Michael Morgan	✓		
Jayne Norman	✓		
Ruba Sivagnanam			
Stefan Wiliam		✓	
Margaret Wilkinson	✓		

Wedi ystyried yr adroddiad yn llawn, a phleidlais y Pwyllgor, wedi hynny

**PENDERFYNWYD** – BOD y casgliadau a'r argymhellion yn Adroddiad yr Arolygydd yn cael eu derbyn a bod y Cais i gofrestru'r Tir fel maes tref neu bentref yn cael ei wrthod am fod yr Ymgeisydd wedi methu â bodloni'r profion statudol o dan adran 15(2) Deddf 2006.

#### Y rheswm dros y penderfyniad

Er mwyn i'r Cyngor fel Awdurdod Cofrestru Tir Comin gyflawni ei ddyletswydd i benderfynu ar y Cais yn unol â'r Ddeddf a Rheoliadau Tiroedd Comin (Cofrestru Meysydd Tref neu Bentref) (Trefniadau Interim) (Cymru) 2007.

#### 148 CAIS AM GYMERADWYAETH FEL PROFWR MESURYDD CERBYD HACNI AWDURDODEDIG - A2Z TAXI VALE OF GLAMORGAN LTD (CAT) –

Cyflwynodd yr Uwch Swyddog Gorfodi Trwyddedu yr adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth Aelodau i gymeradwyo profwr mesuryddion cymeradwy ychwanegol a fydd yn darparu perchnogion Cerbydau Hacni ym Mro Morgannwg gyda mwy o ddewis o brofion mesuryddion cymeradwy.

No.

Gofynnodd y Cadeirydd am unrhyw gwestiynau, sylwadau neu faterion o eglurhad gan y Pwyllgor. Ni chodwyd unrhyw faterion.

Ar ôl ystyried yr adroddiad yn llawn, fe'i

PENDERFYNWYD – BOD y cais gan A2Z Taxi Vale of Glamorgan Ltd yn cael ei gymeradwyo.

#### Y rheswm dros y penderfyniad

Rhoi mwy o ddewis i berchnogion Cerbyd Hacni ym Mro Morgannwg o ran profwyr mesuryddion cymeradwy.

#### 149 GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD –

PENDERFYNWYD – O dan Adran 100A (4) o'r Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol ar y sail ei bod yn debygol o gynnwys datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Rhan 4 o'r Atodlen 12A (fel y'i diwygiwyd) o'r Ddeddf, y cyfeirir at baragraffau perthnasol yr Atodlen mewn cromfachau ar ôl y pennawd munud.

#### 150 CANIATÁU TRWYDDEDAU – JW (CAT) (GWYBODAETH EITHRIEDIG – PARAGRAFFAU 12, 13 A 14) -

Gofynnwyd i'r pwyllgor benderfynu ar gais ar gyfer caniatáu Trwyddedau Gyrwr Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat.

Cadarnhaodd yr Uwch Swyddog Gorfodi Trwyddedu gyda JW ei fod wedi derbyn copi o'r adroddiad cyn y cyfarfod a chyflwynodd yr adroddiad a oedd yn gofyn am benderfyniad a oedd JW yn berson addas a phriodol i ddal Trwydded Gyrwr Cerbydau Hacni a Hurio Preifat Bro Morgannwg.

Rhoddodd yr adroddiad fanylion ynghylch trwyddedau Blaenorol Cerbydau Hacni a Hurio Preifat yr ymgeisydd gyda'r Awdurdod hwn a ddiddymwyd ar 9 Ionawr, 2018 yn dilyn euogfarn yfed a gyrru, materion eraill a ddaeth o dan y polisi euogfarn, a gwybodaeth a ddarparwyd drwy gofnodion Yr Asiantaeth Trwyddedu Gyrwr a Cherbydau (DVLA).

Atgoffodd yr Uwch Swyddog Gorfodi Trwyddedu yr Aelodau o'r Canllawiau ar Benderfynu Addasrwydd Ymgeiswyr a Thrwyddedau yn y Masnach Cerbydau Hacni a Hurio Preifat a gyhoeddwyd ar 3 Medi, 2019 a ddywedodd na fyddai trwydded yn cael ei rhoi tan fod o leiaf 7 mlynedd wedi mynd heibio ers cwblhau unrhyw ddedfryd neu waharddiad gyrru a roddwyd, a fyddai yn yr achos hwn yn 2026.

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried a oedd unrhyw amgylchiadau lliniarol yr oeddent am eu hystyried ac a oedd yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol i gynnal Trwyddedau Gyrwr Cerbydau Hacni a Hurio Preifat.

No.

Yn dilyn cyflwyniad y Swyddog o'r adroddiad, gofynnodd y Prif Swyddog Cyfreithiol i'r ymgeisydd a oedd unrhyw ffactorau lliniarol i'r Pwyllgor ystyried caniatáu'r trwyddedau iddo.

Dywedodd yr ymgeisydd ei fod wedi gwneud camgymeriad enfawr ac wedi cyfaddef yr un peth ond ei fod wedi cwblhau'r cwrs angenrheidiol a'i fod yn gofyn am ail gyfle.

Gwahoddodd y Cadeirydd bawb oedd yn bresennol a oedd yna unrhyw gwestiynau yr oeddent am eu gofyn.

Dywedodd cynrychiolydd yr apelydd fod yr apelydd wedi bod yn nerfus am ddod gerbron y Pwyllgor ond ei fod yn ysu am gael ei drwyddedau yn ôl a symud ymlaen.

Gofynnodd un Aelod a oedd y digwyddiad dan sylw wedi bod yn ddigwyddiad ynysig, neu a fu unrhyw euogfarnau tebyg yn y gorffennol. Dywedodd yr Uwch Swyddog Gorfodi Trwyddedu fod materion blaenorol wedi cael eu hystyried yn 2016 fel rhan o gais arall ac fe gyfeiriodd y mater at euogfarn dyddiedig 23 Tachwedd, 2012 am fethu ag adrodd am ddamwain ar 13 Ebrill, 2012. Cadarnhawyd hefyd nad oedd yr ymgeisydd yn gyrru tacsï fel rhan o'r euogfarn ond ei fod mewn cerbyd preifat.

Doedd dim cwestiynau pellach a gofynnwyd i'r ymgeisydd dynnu'n ôl o'r cyfarfod. Yn dilyn hyn, bu'r Pwyllgor wedyn yn ystyried y mater yn breifat cyn gwahodd yr ymgeisydd yn ôl i glywed canlyniad trafodaethau'r Pwyllgor.

Amlinellodd y Prif Gyfreithiwr benderfyniad y Pwyllgor fel a ganlyn:-

Penderfynodd y pwyllgor beidio â rhoi'r drwydded gan nad oeddent yn fodlon bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol yn unol â'r prawf cyfreithiol fel y nodwyd yn yr adroddiad. Ni gynigiodd yr ymgeisydd unrhyw reswm pam y dylai'r pwyllgor wyro oddi wrth ei bolisi ar drin euogfarnau blaenorol. Nid oeddent yn fodlon bod unrhyw gyfiawnhad dros ddatgymhwysu'r polisi mewn perthynas â'r drosedd a arweiniodd at anghymwysu rhag gyrru, gan nodi nad yw 7 mlynedd wedi mynd heibio o'r euogfarn eto ac ni ellid nodi unrhyw ddadl rymus i gyfiawnhau gwyrto oddi wrth y polisi.

Cafodd yr ymgeisydd wybod y byddai'n derbyn hysbysiad ffurfiol o'r penderfyniad yn ysgrifenedig.

Ar ôl ystyried yr adroddiad yn llawn, fe'i

**PENDERFYNWYD – AR ôl ystyried ffeithiau'r adroddiad a pholisi'r Cyngor yn ofalus, ac ar ôl clywed gan JW, penderfynodd yr Aelodau nad oedd JW yn berson addas a phriodol i ddal Trwyddedau Gyrru Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat.**

No.

Y rheswm dros y penderfyniad

Er mwyn sicrhau bod penderfyniadau'r Awdurdod Trwyddedu yn gyson â'r canllawiau a fabwysiadwyd ar bennu Addaswydd Ymgeiswyr a Thrwyddedeion yn y diwydiant Cerbydau Hacni a Llogi Preifat. mewn perthynas â Thrwyddedau Gyrwyr.